Galwad am Aelodau Bwrdd newydd -

Dawns i Bawb

Mae Dawns i Bawb yn chwilio am Aelodau Bwrdd newydd a deinamig i helpu i lunio ein dyfodol.

Sefydliad dawns cymunedol ydi Dawns i Bawb, wedi ei leoli yng Ngogledd Orllewin Cymru, sy'n datblygu gweithgaredd dawns gyda phobl o bob oedran a gallu ar draws Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Credwn y gall pawb ddawnsio, a bod gan ddawns y potensial i gael effaith adeiladol a chadarnhaol ar unigolion a chymunedau a bod gan ddawns rôl i'w chwarae wrth greu byd iachach, gwyrddach a mwy grymusol i'n cymunedau fyw ynddo.

Mae Dawns i Bawb yn sefydliad celfyddydol a ariennir dros sawl blwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru grantiau craidd gan Gyngor Wynedd a Môn. Ar hyn o bryd rydym yn cyflawni ein blwyddyn gyntaf on cytundeb refeniw drwy gyflwyno gweithgareddau dawns cymunedol. Rwan rydym yn chwilio am aelodau Bwrdd newydd i ymuno â ni ar y pwynt yma o'n taith i helpu i lunio ein blynyddoedd nesaf.

Rydym yn gyffrous i groesawu unigolion o bob cefndir sy'n rhannu ein gweledigaeth fod celf i bawb a bod gan bawb yr hawl i gael mynediad i gelf a mynegiant creadigol.

Rydym yn ymdrechu i wneud ein sefydliad yn amrywiol, yn gynhwysol ac yn groesawgar ar bob lefel. Rydym yn ymroddedig i feithrin bwrdd amrywiol a meithrin amgylchedd gynhwysol lle gall pawb fod yn nhw eu hunain.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir a chymuned, gydag anogaeth arbennig i'r rhai o grwpiau oedran amrywiol, y rhai ag anableddau, amrywiol hunaniaethau o ran rhywedd, tueddiadau rhywiol, hil, a chrefyddau neu gredoau.

Fel Aelod o'r Bwrdd, byddwch yn:

• Helpu i lunio dyfodol cwmni dawns cymunedol uchel ei barch a sicrhau bod y celfyddydau'n parhau i fod yn hygyrch i bawb.

• Ennill profiad gwerthfawr mewn llywodraethu, cynllunio strategol, codi arian, marchnata, a mwy.

• Cysylltu ag unigolion o'r un anian, gweithwyr proffesiynol y celfyddydau, ac arweinwyr cymunedol.

• Derbyn gwahoddiadau i ddigwyddiadau unigryw, perfformiadau a phrosiectau cymunedol.

• Chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o ddod â llawenydd ac ysbrydoliaeth i gynulleidfaoedd amrywiol trwy rym dawns cymunedol.

Os ydych chi'n credu yng ngrym cynhwysol a thrawsnewidiol dawns cymunedol a bod gennych sgiliau mewn Adnoddau Dynol, cynllunio busnes, codi arian, a/neu farchnata, byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno â ni.

Mae ein cyfarfodydd yn dilyn model hybrid felly mae modd mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu drwy Zoom. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol a hefyd cewch gyfle i ymuno ag is-grwpiau sy'n gweithio'n agosach â'r Cyfarwyddwr ar faterion penodol.

Am fanylion pellach neu am drafodaeth am ddod yn Aelod o Fwrdd Dawns i Bawb, anfonwch e-bost at: post@dawnsibawb.org

Dysgwch fwy am yr hyn rydym yn ei wneud yn www.dawnsibawb.org a dilynwch ni ar Facebook, LinkedIn ac Instagram.

dawnsibawb

Rhaglen Ddawns Dawns i Bawb Dance Programme

DAWNS AC ADDYSG

Dawns fel ffordd o greu profiadau dysgu deinamig ar y cyd ag ysgolion lleol, gan weithio gyda'r cwricwlwm newydd i Gymru

DANCE & EDUCATION

Dance as a way to create dynamic learning experiences in collaboration with local schools, working with the new curriculum for Wales

DAWNS, CYDLYNIANT CYMUNEDOL AC EHANGU YMGYSYLLTIAD

Dawns fel modd i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, rhoi llais grymusol, mynegiannol a chreadigol i unigolion a chymunedau, datblygu prosiectau adfywio cymunedol a dod â phobl at ei gilydd

DANCE, COMMUNITY COHESION AND WIDENING ENGAGEMENT

Dance as a means to tackle social issues,give an empowering, expressive and creative voice to invidividuals and communities, develop community regeneration projects and bring people together

DAWNS AC IECHYD

Gweithgaredd dawns i wella iechyd a lles corfforol ac emosiynol unigolion, gan gynnwys preswylwyr cartrefi gofal, pobl sy'n byw gyda Dementia a Parkinsons, Dawns ar Bresgripsiwn, ffitrwydd corfforol ac yn brwydro yn erbyn ynysu cymdeithasol

DANCE FOR HEALTH

Dance activity to improve the physical and emotional health and wellbeing of individuals including Care Home residents, people living with Dementia and Parkinsons, dance on prescription, physical fitness and combating social isolation

DAWNS A'R GYMRAEG

Datblygu gweithgaredd sy'n galluogi cyfranogwyr i ddysgu/profi/dathlu'r Gymraeg a Diwylliant Cymru trwy ddawns

DANCE & WELSH

Developing activity that allows participants to learn/experience/celebrate the Welsh language & Culture through dance

DATBLYGIAD STRATEGOL AC ARTISTIG

Datblygu gwaith i artistiaid dawns a phobl sy'n wynebu rhwystrau wrth fynd i mewn i'r gweithle

STRATEGIC & ARTISTIC DEVELOPMENTS

Develop work opportunities for dance artists and people that face barriers in entering the workplace

CYFLEOEDD PERFFORMIO

Sioe Aeaf
Perfformiad Rhyngweithiol i Gartrefi Gofal

PERFORMANCE OPPORTUNITIES

Annual Winter Show
Interactive Performance for Care Homes

dawnsibawb · Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Cyngor Gwynedd Council · Ffyniant Bro